The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

**Cais gan Liverpool Bay CCS Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Prosiect Piblinell Carbon Deuocsid HyNet.**

**Ail rownd cwestiynau ysgrifenedig a cheisiadau am wybodaeth yr Awdurdod Archwilio (ExQ2)**

**Cyhoeddwyd ar 15 Mehefin 2023**

Mae'r tabl canlynol yn amlinellu cwestiynau ysgrifenedig a cheisiadau am wybodaeth yr Awdurdod Archwilio (ExA) – ExQ2. Os bydd angen, mae amserlen yr archwiliad yn galluogi'r ExA i gyhoeddi rownd arall o gwestiynau ysgrifenedig. Os gwneir hyn, cyfeirir at y rownd arall o gwestiynau fel ExQ3.

Gosodir cwestiynau gan ddefnyddio fframwaith wedi'i seilio ar faterion sy'n deillio o'r Asesiad Cychwynnol o Brif Faterion a ddarparwyd fel Atodiad C i'r llythyr Rheol 6 dyddiedig 20 Chwefror 2023. Ychwanegwyd cwestiynau at y fframwaith o faterion a amlinellwyd yno wrth iddynt godi mewn sylwadau ac i fynd i'r afael â'r asesiad o'r cais yn erbyn polisïau perthnasol.

Mae colofn 2 y tabl yn nodi at ba Bartïon â Buddiant (IPs) ac unigolion eraill y mae pob cwestiwn wedi'i gyfeirio. Byddai'r ExA yn ddiolchgar pe gallai'r holl unigolion a enwir ateb yr holl gwestiynau a gyfeirir atynt, naill ai trwy ddarparu ymateb o sylwedd neu esbonio pam nad yw'r cwestiwn yn berthnasol iddynt. Nid yw hyn yn atal rhywun rhag ateb cwestiwn na chyfeiriwyd ato, os bydd y cwestiwn yn berthnasol i'w fuddiannau.

Mae gan bob cwestiwn gyfeirnod unigryw sy'n dechrau gyda rhif 2 (sy'n dangos ei fod yn perthyn i ExQ2) ac yna rhif mater a rhif cwestiwn. Er enghraifft, nodir y cwestiwn cyntaf ar Faterion Cyffredinol a Thrawsbynciol fel Q2.1.1. Pan fyddwch yn ateb cwestiwn, dechreuwch eich ateb drwy ddyfynnu'r cyfeirnod unigryw, os gwelwch yn dda.

Os ydych yn ymateb i nifer fach o gwestiynau, bydd atebion mewn llythyr yn ddigonol. Os ydych yn ateb nifer fawr o gwestiynau, byddai'n ddefnyddiol i'r ExA petaech yn defnyddio tabl wedi'i seilio ar yr un hwn i osod eich ymatebion. Mae fersiwn y gellir ei golygu o'r tabl hwn yn Microsoft Word ar gael ar gais gan y Tîm Achos: cysylltwch â hynetco2pipeline@planninginspectorate.gov.uk gan roi **Piblinell Carbon Deuocsid HyNet** yn llinell bwnc eich neges e-bost.

Mae nifer o Derfynau Amser wedi mynd heibio ac mae'r Ymgeisydd wedi gwneud Cyflwyniadau Ychwanegol, gan gynnwys Ceisiadau i Newid. Gallai'r rhain eisoes fynd i'r afael â rhai o'r cwestiynau a ofynnir isod. Os felly, nid yw'r ExA o'r farn bod angen i'r cwestiwn hwnnw gael ei ateb yn llawn; yn hytrach, byddai'r ExA yn gofyn i'r ymateb i'r cwestiwn hwnnw gyfeirio at ble yn union y mae'r ateb/ y wybodaeth eisoes wedi cael ei ddarparu/ darparu (h.y. Teitl y Ddogfen, Cyfeirnod Dogfen yr Ymgeisydd, Cyfeirnod yr Arolygiaeth Gynllunio, Rhif Paragraff, Rhif Tabl, ac ati).

**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 5: Dydd Mawrth 4 Gorffennaf 2023.**

**Talfyriadau a ddefnyddir:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **AEoI** | Effaith Niweidiol ar Gyfanrwydd | **HSE** | Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch |
| **AGI** | Gosodiad ar Ben y Tir | **IPs** | Partïon â Buddiant |
| **BNG** | Enillion Bioamrywiaeth Net | **LEMP** | Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecoleg |
| **BVS** | Gorsaf Falfiau Bloc | **ACLl** | Awdurdod Cynllunio Lleol |
| **CEMP** | Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu | **LSE** | Effeithiau Arwyddocaol Tebygol |
| **CWCC** | Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer | **ML** | Trwydded Forol |
| **DCO** | Gorchymyn Caniatâd Datblygu | **NE** | Natural England |
| **EA** | Asiantaeth yr Amgylchedd | **NH** | National Highways Ltd |
| **EPS** | Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop | **NMWTRA** | Awdurdod Rheoleiddio Traffig Gogledd a Chanolbarth Cymru |
| **ES** | Datganiad Amgylcheddol | **a** | Adran |
| **ExA** | Awdurdod Archwilio | **ACA** | Ardal Cadwraeth Arbennig |
| **ExQ2** | Ail Gwestiynau Ysgrifenedig yr ExA | **SoCG** | Datganiad Tir Cyffredin |
| **FCC** | Cyngor Sir y Fflint | **AGA** | Ardal Gwarchodaeth Arbennig |
| **FLL** | Tir â Chysylltiad Swyddogaethol | **SRN** | Rhwydwaith Ffyrdd Strategol |
| **GCN** | Madfallod Dŵr Cribog | **SuDS** | Systemau Draenio Cynaliadwy |
| **HRA** | Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd | **UUW** | United Utilities Water |
| **HRAR** | Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd | **WW** | Dŵr Cymru |

**Llyfrgell yr Archwiliad**

Mae cyfeiriadau yn y cwestiynau hyn sydd wedi'u gosod mewn cromfachau sgwâr (e.e. [APP-010]) yn cyfeirio at ddogfennau sydd wedi'u rhestru yn Llyfrgell yr Archwiliad. Mae Llyfrgell yr Archwiliad ar gael trwy'r ddolen ganlynol:

https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/wp-content/ipc/uploads/projects/EN070007/EN070007-001186-HyNet%20Carbon%20Dioxide%20Pipeline%20Bilingual%20Examination%20Library.pdf.

Caiff ei diweddaru wrth i'r Archwiliad fynd rhagddo.

**Cyfeirio at Gwestiynau**

Dylid cyfeirio at gwestiynau yn y tabl hwn fel a ganlyn:

Cyfeirnod y cwestiwn: cyfeirnod y mater: rhif y cwestiwn, e.e. mae Q2.1.1 yn cyfeirio at gwestiwn 1 yn y tabl hwn.

**Mynegai**


1. **Cwestiynau Cyffredinol a Thrawsbynciol ............... 5**
2. **Asesu Dewisiadau Amgen...................................... 6**
3. **Ansawdd Aer ac Allyriadau .................................. 7**
4. **Bioamrywiaeth, Ecoleg a'r Amgylchedd Naturiol ... 8**
5. **Newid yn yr Hinsawdd........................................ 12**
6. **Caffael Gorfodol, Meddiant Dros Dro ac Ystyriaethau Tir neu Hawliau Eraill ..................... 13**
7. **Treftadaeth Ddiwylliannol a'r Amgylchedd Hanesyddol ........................................................ 15**
8. **Dyluniad a Gosodiad.......................................... 16**
9. **Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol/ Datganiad Amgylcheddol.................................................. 17**
10. **Perygl Llifogydd, Hydroleg, Adnoddau Dŵr a Halogiad .......................................................... 17**
11. **Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd......................... 18**
12. **Tirwedd a Gweledol........................................... 22**
13. **Adnoddau Mwynau ............................................ 22**
14. **Sŵn a Dirgryniad............................................... 22**
15. **Polisi Cynllunio.................................................. 22**
16. **Effeithiau Economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys Iechyd y Boblogaeth ac Iechyd Dynol... 24**
17. **Trafnidiaeth a Thraffig ....................................... 24**
18. **Rheoli Gwastraff ............................................... 25**
19. **Gorchymyn Caniatâd Datblygu Drafft .................. 25**
20. **Arall ................................................................ 28**

| **ExQ2** | **Cwestiwn ar gyfer:** | **Cwestiwn:** |
|---|---|---|
| **1.** | **Cwestiynau Cyffredinol a Thrawsbynciol** | |
| Q2.1.1 | *Gwybodaeth*<br>**Yr Ymgeisydd/ Partïon â Buddiant (IP)** | • O ystyried bod y ceisiadau i newid a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd [CR1-001] a [CR2-016] wedi bod yn destun ymgynghoriad a/ neu'n destun ymgynghoriad statudol ar hyn o bryd, a chan dybio bod yr holl ddarpariaeth ymgynghori ffurfiol wedi cael ei datgan ac y cadarnhawyd ei bod wedi'i bodloni ar gyfer y Ceisiadau i Newid, mae'r ExA yn gofyn a fyddai angen Gwrandawiad(au) ychwanegol neu gwestiynau ysgrifenedig ychwanegol gan yr ExA, y tu hwnt i'r rhai a drefnwyd eisoes yn amserlen yr Archwiliad, fel cyfryngau perthnasol i fynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n weddill yn yr Archwiliad.<br>Gwahoddir yr Ymgeisydd/ IP i wneud sylwadau os ystyrir bod hynny'n briodol. |
| Q2.1.2 | *Trafodaethau/ Datrys gwrthdaro*<br>**Yr Ymgeisydd** | • Nodir pryderon y Cyngor, Peel NRE ac Encirc ynglŷn â'r effeithiau posibl ar Barc Plastigau Protos, darparu'r llinell reilffordd a oedd yn rhan o'r caniatâd cynllunio trosfwaol **(14/02277/S73)** a'r posibilrwydd o ehangu Cyfleuster Gweithgynhyrchu Gwydr Encirc, gan gynnwys y posibilrwydd o golli/ sterileiddio rhan o safle strategol a/ neu safle(oedd) a ddiogelir. Mae'r ExA yn annog yr Ymgeisydd i ddatrys pryderon yr IPs perthnasol fel blaenoriaeth a rhoi diweddariad i'r ExA ynglŷn â beth sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â'r materion hyn a sut y bwriedir eu datrys o fewn y cyfnod sydd ar ôl o'r Archwiliad**.** |
| Q2.1.3 | *Eglurhad*<br>**Yr Ymgeisydd** | • Mae Ffigur 17.4 (Mynediad Adeiladu) [CR1-092] yn aneglur o ran AG1 CTR1, sy'n ymddangos fel petai wedi'i guddio gan linell goch ffin y Gorchymyn. Adolygwch a diwygiwch, os oes angen. |
| Q2.1.4 | *Eglurhad*<br>**Peel NRE/ Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer (CWCC)** | • Mae Peel NRE yn cyfeirio at "Seilwaith Arfaethedig yn y Dyfodol" yn ei gyflwyniadau. Gofynnir iddo ymhelaethu ar yr hyn a olygir (e.e. a yw'n cyfeirio at ddyraniad presennol yn y Cynllun Datblygu mabwysiedig, neu gynnig datblygu arall/ cynigion datblygu eraill). Mae'r Ymgeisydd, yn ei 'Ymateb i Sylwadau Ysgrifenedig' [REP2-041] ym mharagraff 2.11.15, yn datgan ei fod *"yn ymgysylltu â'r IP i sicrhau manylion y seilwaith hwn er mwyn sicrhau bod y datblygiadau ar wahân yn gallu cydfodoli."* A yw ymgysylltiad o'r fath gydag IPs, gan gynnwys Peel NRE a CWCC, wedi digwydd? Os felly, beth oedd y canlyniad? |
| Q2.1.5 | *Datrys gwrthdaro*<br>**Yr Ymgeisydd** | • Mae Peel NRE yn parhau i wrthwynebu Asesiad o Effeithiau Cronnol yr Ymgeisydd (Datganiad Amgylcheddol (ES) Pennod 19 [APP-071]). Sut mae'r Ymgeisydd yn datrys/ mynd i'r afael â'r pryderon hyn? |

| ExQ2 | Cwestiwn ar gyfer: | Cwestiwn: |
|---|---|---|
| **2. Asesu Dewisiadau Amgen** | | |
| Q2.2.1 | **Yr Ymgeisydd/ Llywodraeth Cymru/ IPs** | • Mae Stephen Gibbons [AS-064] wedi gwneud cyflwyniadau ynglŷn â'r posibilrwydd o lwybr byrrach (a ddiystyriwyd) i'r gogledd o Barc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy yn gyfochrog â'r A548. Mae awdur y cyflwyniad yn nodi bod y llwybr amgen hwnnw'n gynnig gwell oherwydd: -<br><br>○ nid yw'r llwybr yn mynd heibio'n agos i ardaloedd preswyl, ac felly mae'n llai tebygol o gael effaith;<br>○ mae'r llwybr yn mynd trwy gefn gwlad agored ac yn hawdd ei gyrraedd ar gyfer adeiladu o'r A548;<br>○ mae'r llwybr amgen tua 7.2km yn fyrrach a fyddai'n arwain at arbed costau sylweddol; ac<br>○ mae llwybr byrrach yn tarfu cyn lleied â phosibl ar hawliau tirfeddianwyr preifat.<br><br>Mae'r ExA yn cydnabod rhesymeg yr Ymgeisydd, fel y'i hamlinellir yn [REP2-039], dros ddiystyru'r llwybr uchod, sy'n cynnwys;- cyfyngiadau cysylltiedig â pheirianneg; safle tirlenwi na wyddys ei darddiad; croesfan sy'n cynnwys tywod symudol, sy'n awgrymu bod angen twnelu'n ddwfn iawn er mwyn sicrhau sefydlogrwydd; y ffaith bod tir y lan orllewinol yn anaddas; byddai adeiladu rhan olaf y llwybr heibio i'r orsaf bŵer yn arwain at darfu sylweddol yn sgil ei chau am sawl wythnos; ac mae'r tir ar bob ochr i Afon Dyfrdwy o fewn y coridor wedi'i ddynodi'n rhyngwladol am ei bwysigrwydd bioamrywiaeth a byddai'r gwaith sy'n gysylltiedig â'r biblinell yn cael mwy o effaith amgylcheddol na'r coridor deheuol. Fodd bynnag, mae'r ExA yn gofyn: -<br><br>i. Pa wybodaeth arolwg fanwl a gafwyd sy'n llywio safbwyntiau/ datganiadau'r Ymgeisydd yn hyn o beth?<br>ii. A yw'r materion peirianegol/ daearegol y cyfeiriwyd atynt yn broblemau anorchfygol o safbwynt cyflawni'r cynllun? Os felly, sut, a pham byddent yn faterion anorchfygol? Neu a yw'n ymwneud yn fwy ag amser/ cost?<br>iii. Pa ddyfnder twnelu y mae'r Ymgeisydd yn cyfeirio ato (syniad bras/ amcangyfrif)?<br>iv. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, beth yw enw'r orsaf bŵer a'r rheswm penodol pam y byddai angen iddi gau? |

| ExQ2 | Cwestiwn ar gyfer: | Cwestiwn: |
|---|---|---|
| | | v. A ystyriwyd unrhyw ddewisiadau amgen technegol i ganiatáu i'r orsaf bŵer aros ar agor?<br>vi. O ran elfennau bioamrywiaeth y rhesymau dros ddiystyru'r llwybr, a) a gynhaliwyd unrhyw astudiaeth sy'n dangos nad oedd y dynodiad ecolegol yn ffafriol i gyflawni dyluniad cynllun priodol ar gyfer y biblinell, b) a gynhaliwyd astudiaeth a ddaeth i'r casgliad y byddai effaith fwy na'r llwybr presennol? Darparwch y manylion llawn, os gwelwch yn dda.<br>vii. A yw'r Ymgeisydd yn cytuno/ anghytuno bod y cynllun presennol yn ymyrryd mwy â hawliau perchnogaeth tir na'r dewis amgen a ddiystyriwyd? Rhowch eich rhesymeg, os gwelwch yn dda.<br><br>**IPs**<br>• Gwahoddir IPs i wneud sylwadau, os yw'n briodol. |
| **3.** | **Ansawdd Aer ac Allyriadau** | |
| Q2.3.1 | *Mesurau lliniaru/ rheoli*<br>**Cyngor Sir y Fflint (FCC)/ CWCC/ IPs** | • Pa ddulliau/arferion rheoli presennol a fyddai ar waith yn lleol i adrodd am fater ansawdd aer (fel arogleuon neu lwch) petai problem yn codi o ddatblygiad y Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) yn ystod adeiladu neu weithredu a adroddwyd gan aelod o'r cyhoedd? |
| Q2.3.2 | *Mesurau lliniaru/ rheoli*<br>**FCC/ CWCC/ IPs** | • A oes gan y Cyngor amserlen glir ar gyfer pa mor gyflym y byddai materion ansawdd aer lleol a godir gan aelod o'r cyhoedd ynglŷn â materion fel atal arogleuon yn cael eu cydnabod ac yn derbyn ymateb, pe byddai hynny'n digwydd? Os felly, esboniwch y broses o'r dechrau i'r diwedd.<br>Os oes polisïau Gorfodi corfforaethol eisoes ar waith, manylwch ar natur y rheiny, gan gynnwys yr holl ymrwymiadau ynglŷn â sut y byddai cwynion yn cael eu rheoli. |
| Q2.3.3 | *Mesurau lliniaru/ rheoli*<br>**Yr Ymgeisydd/ IPs** | • O ystyried y camau gweithredu ac adeiladu, a yw'r Ymgeisydd yn cynnig unrhyw sianeli/ dulliau rheoli gweithredol i gefnogi unrhyw senarios rheoli cwynion lleol yn y dyfodol yn gysylltiedig â'r seilwaith arfaethedig?<br>A fyddai unrhyw sianel reoli weithredol ar waith ar gyfer y datblygiad DCO y byddai aelodau'r cyhoedd yn gallu cysylltu â hi'n uniongyrchol? Er enghraifft, pe byddai angen i unrhyw aelod o'r cyhoedd adrodd am fater.<br>Os felly, beth fyddai'r ddarpariaeth reoli y gellid cysylltu â hi'n ei gynnwys? Pa sicrwydd y gall yr Ymgeisydd ei roi trwy ddulliau ffurfiol yn y DCO i sicrhau y byddai dulliau rheoli |

| ExQ2 | Cwestiwn ar gyfer: | Cwestiwn: |
|---|---|---|
| | | digonol ar waith o ddydd i ddydd i ddelio ag unrhyw gŵyn/ mater/ pryder gan y cyhoedd pe byddai'n codi yn ystod adeiladu neu weithredu?<br>Byddai'r cwestiwn hefyd yn ymestyn i reoli unrhyw ddarpariaeth dirweddu sydd i'w chynnal. |
| **4.** | **Bioamrywiaeth, Ecoleg a'r Amgylchedd Naturiol** | |
| Q2.4.1 | *Arolygon*<br>**Yr Ymgeisydd/ CWCC/ FCC/ Natural England (NE)/ Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)/ IPs** | • Mae CWCC yn cyfeirio at absenoldeb arolygon ecolegol y tu hwnt i derfynau ffin y gorchymyn ar gyfer tylluanod gwynion a moch daear yn ei ohebiaeth fanwl a dderbyniwyd erbyn Terfyn Amser 2, ac amlygodd bryderon ynglŷn ag arolygon anghyflawn mewn perthynas ag Ystlumod a Thylluanod Gwynion. Fel y cyfryw, mae CWCC o'r farn bod yr asesiadau o lefelau pwysigrwydd a gwerth/ sensitifrwydd derbynyddion wedi'u seilio ar setiau data anghyflawn. Yn ogystal, mae'n nodi'r angen i egluro arolygon o dderbynyddion eraill a amlygwyd. Byddai'r ExA yn gofyn:<br>i. A wnaiff CWCC egluro pa dderbynyddion lleoliadol penodol y mae'n cyfeirio atynt?<br>ii. P'un a yw CWCC o'r farn bod yr holl wybodaeth y mae wedi cyfeirio ati yn angenrheidiol i lywio penderfyniad mewn gwirionedd, neu a ystyrir ei bod yn ddymunol ei natur?<br>iii. Beth yw'r rhesymau penodol dros honni ei bod yn ofynnol i'r Ymgeisydd gynnal unrhyw arolygon ychwanegol/ darparu data ychwanegol?<br>iv. Pa bellteroedd argymelledig (yn berthynol i ardal y DCO) ar gyfer arolygon ecolegol penodol i rywogaeth neu ddata ychwanegol y byddai angen eu hystyried, o gofio unrhyw arferion gorau lleol neu genedlaethol neu arbenigedd proffesiynol sydd ar gael i'r Cyngor? Cyfeiriwch yn glir at y ffynhonnell neu'r arbenigedd ecolegol sy'n gysylltiedig.<br>v. A yw CWCC yn dymuno ychwanegu unrhyw wybodaeth ecolegol y mae'n ymwybodol ohoni at gofnod yr archwiliad o ystyried y materion uchod? |
| Q2.4.2 | *Arolygon*<br>**CWCC ac IPs** | **CWCC**<br>• Mae CWCC yn nodi bod arolygon ychwanegol wedi cael eu cyflwyno i'r Archwiliad ar 3 Mawrth 2023 gan yr Ymgeisydd ac y'u derbyniwyd gan yr ExA, yn rhan o ymateb yr Ymgeisydd i gyngor Adran (a) 51, ar 14 Mawrth 2023. Disodlwyd rhai o'r dogfennau hyn wedi hynny gan ddogfennau sy'n disodli'r rhai gwreiddiol o ganlyniad i wall cyhoeddi. Derbyniodd yr ExA y rhain i'r archwiliad ar 20 Mawrth 2023. Mae'r dogfennau |

| ExQ2 | Cwestiwn ar gyfer: | Cwestiwn: |
|---|---|---|
| | | a ddisodlwyd yn cynnwys '*' nesaf at gyfeirnod y ddogfen yn Llyfrgell yr Archwiliad yn y rhestr a amlinellir isod.<br>Roedd yr arolygon hyn wedi'u cynnwys yn y canlynol: Pennod 9 – Bioamrywiaeth [AS-025]; Adroddiad Arolwg Gweithgarwch Ystlumod [AS-057]*; Adroddiad Arolwg Gweithgarwch Ystlumod Atodiad G Rhan 2 [AS-029]; Asesiad Ystlumod a Gwrychoedd [AS-031], [AS-033], [AS-035] i [AS-038] ac [AS-059]*; Adroddiad Arolwg Mamaliaid Glannau Afon [AS-039]; a Chynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu Amlinellol (CEMP) [AS-055].<br>Nododd CWCC fod angen amser ychwanegol i fynd i'r afael â'r wybodaeth amgylcheddol hon yn briodol. Byddai'r ExA yn gofyn faint o amser ychwanegol a geisir neu a yw CWCC yn gallu egluro ei safbwyntiau ar gynnwys y dogfennau uchod ar hyn o bryd? Os felly, rhowch eich sylwadau.<br>**IPs**<br>Gwahoddir yr holl IPs i wneud sylwadau. |
| Q2.4.3 | *Data arolwg*<br>**Yr Ymgeisydd** | • Mae'r ymateb i CWCC [REP-042] yn awgrymu bod data wedi cael ei gasglu y tu hwnt i derfynau'r gorchymyn, ond nid yw'n glir ble ac mae'n ymddangos fel petai'n cyfeirio at ardal ehangach Terfynau'r Gorchymyn DCO mewn drafft blaenorol yn ystod y cam cyn-ymgeisio yn hytrach na strategaeth arolygu fesuredig yn ymwneud â chynefin rhywogaethau a phellterau arolygu safonol a ystyrir ar gyfer rhywogaethau perthnasol. Gofynnir i'r Ymgeisydd egluro a/ neu ddarparu ar gyfer cyflwyno gwybodaeth ecolegol ychwanegol am y mater hwn.<br>Yn ail, nodir bod nodweddion y gellid effeithio arnynt o bosibl y tu allan i ffin y DCO yn cynrychioli effeithiau anuniongyrchol. Ond efallai nad effeithiau 'anuniongyrchol' yw'r term cywir sy'n berthnasol. A all yr Ymgeisydd egluro pa nodweddion y tu allan i ffin y DCO a ystyrir yn briodol a nodi'r trothwyon pellter lleiaf, yr arbenigedd technegol a'r canllawiau ecolegol y mae'n seilio ei resymeg a'i gasgliadau arnynt? |
| Q2.4.4 | *Arolygon/ Mesurau lliniaru*<br>**Yr Ymgeisydd/ CWCC/ FCC/ NE/ CNC/ IPs** | • Mae'r Ymgeisydd yn nodi y bydd arolygon diweddaru'n cael eu cynnal yn ystod y cam dylunio manwl a bod mesurau lliniaru'n ddigonol i ddiogelu derbynyddion a amlygwyd o fewn Terfynau'r Gorchymyn a thu hwnt, neu eu lliniaru fel arall. Ond sut mae'n glir y byddai mesurau lliniaru'n effeithiol heb fod gwybodaeth arolygu llawn ar gael i lywio hyn yn gyntaf? |

| ExQ2 | Cwestiwn ar gyfer: | Cwestiwn: |
|---|---|---|
| | | • A yw IPs o'r farn bod safbwynt yr Ymgeisydd yn briodol? |
| Q2.4.5 | *Effeithiau Arwyddocaol Tebygol (LSE) ar ffawna a warchodir*<br>**CWCC/ FCC/ NE/ CNC/ Coed Cadw/ IPs** | • A yw CWCC/IPs yn cytuno y gallai'r effeithiau uniongyrchol/ anuniongyrchol ar ffawna a warchodir o ganlyniad i lwybr y biblinell gael eu rheoli/ osgoi (lle y bo'n bosibl) a'u lliniaru wedi hynny os bydd angen? Os na, nodwch pam gan amlinellu'r meysydd penodol yr anghytunir arnynt.<br>Pa ddulliau ffurfiol y gellid eu cymhwyso i sicrhau bod effeithiau uniongyrchol/ anuniongyrchol sy'n deillio o absenoldeb unrhyw arolwg neu ddiffygion o ran data ecolegol yn cael eu rheoli'n briodol/ yn derbyn sylw'n briodol trwy'r DCO? |
| Q2.4.6 | *Gwella Bioamrywiaeth/ Enillion Bioamrywiaeth Net (BNG)*<br>**CWCC/ FCC/ NE/ CNC/ Coed Cadw/ Llywodraeth Cymru/ IPs** | • Mae 'Diweddariad i Strategaeth BNG Ddrafft' yr Ymgeisydd a dderbyniwyd erbyn Terfyn Amser 2 [REP2-042] yn datgan ei fod yn ceisio cwblhau cynllun cyflawni gyda rhanddeiliaid allweddol cyn cyflwyno'r Adroddiad Asesu BNG erbyn Terfyn Amser 5. Yn rhan o'r rhaglen fwriadedig honno, mae'r Ymgeisydd wedi nodi y byddai hyn yn cynnwys y canlynol:<br>- Amlygu tirfeddianwyr mewn perthynas â BNG ar gyfer Coed Cymru.<br>- Cadarnhau safleoedd yng Nghymru a Lloegr ar gyfer cynefinoedd gwrthbwyso eraill sy'n ofynnol.<br>- Gwirio'r data cychwynnol sylfaenol trwy astudiaeth bwrdd gwaith.<br>- Adolygu a gwirio data arolwg trydydd parti.<br>- Cytuno ar fformat cytundebau cyfreithiol i sicrhau bod BNG yn cael eu rheoli'n barhaus.<br>- Cynnal asesiad terfynol yn seiliedig ar ymyriadau gwella/ creu cynefin cytunedig ac amlinellu rheolaeth tymor hir.<br>• A yw IPs yn teimlo bod y bwriadau drafft uchod yn ddigon helaeth?<br>• O ystyried strategaethau natur lleol a welwyd ar gamau cynharach, a oes unrhyw gyfleoedd a gollwyd, o bosibl, heb gynnwys mwy?<br>• Beth arall y gellid ei wneud i gynyddu gwelliannau ecolegol neu gynigion BNG i'r eithaf? |

| ExQ2 | Cwestiwn ar gyfer: | Cwestiwn: |
|---|---|---|
| Q2.4.7 | *Gwella Bioamrywiaeth/ BNG*<br>**Yr Ymgeisydd/ CWCC/ FCC/ NE/ CNC/ Llywodraeth Cymru/ Coed Cadw/ IPs** | • Gallai'r marchnadoedd natur y cyfeirir atynt yng nghanllawiau Llywodraeth y Deyrnas Unedig ddarparu cyfrwng realistig i wneud gwelliannau ychwanegol sydd o fudd i natur. Gall awdurdodau cynllunio lleol helpu gyda chynigion o'r fath trwy lunio/ darparu:<br>- cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth;<br>- strategaethau seilwaith gwyrdd;<br>- cynlluniau rheoli dalgylch;<br>- ardaloedd cyfle bioamrywiaeth; a<br>- dogfennau partneriaeth natur leol.<br>• Byddai angen i unrhyw gynnig hefyd sicrhau tir perthnasol trwy gytundeb cyfreithiol sy'n rheoli'r cynefin am 30 mlynedd o leiaf. Gallai hyn gael ei gyflawni trwy rwymedigaeth gynllunio (a.106) neu gyfamod cadwraeth gyda chorff cyfrifol. Gallai'r tir gael ei gofrestru wedi hynny fel safle enillion bioamrywiaeth o fis Tachwedd 2023. Mae'r canllawiau cyfredol yn nodi y gallai'r unedau bioamrywiaeth gael eu dyrannu i ddatblygiad cyn neu ar ôl iddynt gael eu cofrestru.<br>• Pa gyfle sydd i ddefnyddio marchnadoedd natur i gyflawni gwelliannau bioamrywiaeth?<br>• A fyddai IPs eisiau cynorthwyo cynigion o'r fath mewn unrhyw ymgysylltiad gweithredol â'r Ymgeisydd?<br>• A yw'r Ymgeisydd wedi ystyried ymagwedd o'r fath, ar y cyd â'r ystod o strategaethau natur a grybwyllwyd gan IPs wrth ymateb i gwestiynau ysgrifenedig cyntaf yr ExA?<br>• Mae'r ExA yn gofyn i farchnadoedd natur sy'n dod i'r amlwg/ datblygu gael eu hystyried yn llawn yn y Strategaeth BNG ddrafft (fel dewis olaf ychwanegol), ochr yn ochr â'i hehangu i gynnwys strategaeth gwella ecolegol o ystyried y derminoleg benodol a ddefnyddir mewn cyfraith/ polisi amgylcheddol ehangach Cymru a Lloegr sy'n berthnasol i'r cynllun (gan gynnwys a.6 dyletswydd Cymru). |
| Q2.4.8 | *Coed*<br>**Yr Ymgeisydd/ CWCC/ FCC/ NE/ CNC/ Coed Cadw/ IPs** | • Mae'r ExA yn nodi, heb ddyluniad manwl terfynol, na ellir cadarnhau'n benodol faint o wrychoedd a choed a gollir, ar draws Terfynau'r Gorchymyn.<br>• Sut mae'r Ymgeisydd yn cyfiawnhau'r ymagwedd hon o safbwynt ecolegol/ rheoli cynefin o ystyried bod gofynion arolygu ychwanegol a allai gael eu sbarduno hefyd?<br>• Sut gall yr ExA ddibynnu'n rhesymol ar y wybodaeth senario achos gwaethaf yn yr ES? Neu'r wybodaeth arall am effeithiau ecolegol cysylltiedig a'r cyfrifiadau BNG ategol a |

| ExQ2 | Cwestiwn ar gyfer: | Cwestiwn: |
|---|---|---|
| | | ddarparwyd heb fod dyluniad manwl ac effeithiau llawn y datblygiad wedi'u cadarnhau yn gyntaf?<br>• A yw'r holl goed a gwrychoedd o fewn Terfynau'r Gorchymyn yr ystyrir eu bod mewn perygl o effeithiau uniongyrchol neu gael eu symud ymaith wedi'u manylu bellach yn Nhabl 9.11 LSEs yn ystod y cam adeiladu o fewn Pennod 9 – Bioamrywiaeth [AS-025]? |
| Q2.4.9 | *Coed*<br>**Yr Ymgeisydd/ CWCC/ FCC/ NE/ CNC/ IPs** | • Mae 'Pecyn Cymorth Strategaeth Coed a Choetiroedd' wedi cael ei gyhoeddi yn ystod 2023 er mwyn galluogi Awdurdodau Lleol i gynllunio, creu neu ddiweddaru eu Strategaethau Coed a Choetiroedd eu hunain a manteisio ar y buddion tymor hir y gall coed eu rhoi i gymunedau lleol.<br>• Gofynnir i'r holl Gynghorau perthnasol gydnabod y cyngor a roddwyd bellach.<br>• Gwahoddir yr holl bartïon yn yr Archwiliad i ddefnyddio'r holl ddarpariaeth arfer gorau a chyfeiriadau sydd ar gael ar hyn o bryd.<br>• A oes gan y Cynghorau perthnasol unrhyw gynlluniau neu ddyheadau posibl i lunio strategaethau o'r fath yn y cyfnodau cyllidol sydd i ddod, yng ngoleuni'r materion sydd i'w trafod yn yr Archwiliad, neu fel arall? |
| Q2.4.10 | *Trwydded Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop (EPS)*<br>**Yr Ymgeisydd** | • Mae'r ExA yn nodi y bwriedir cyflwyno cais am drwydded EPS ddrafft i CNC yn ystod yr Archwiliad ar gyfer sylwadau. Pryd y bwriedir cyflwyno hwn i CNC ac a fydd copi'n cael ei gyflwyno i'r Archwiliad? Os felly, pryd? Os na, mae'r ExA yn gofyn am gael gwybod, ar yr un pryd, am gyflwyno'r cais am drwydded EPS ddrafft i CNC, os bydd yn digwydd cyn diwedd yr Archwiliad. |
| Q2.4.11 | *Llythyr dim rhwystr*<br>**Yr Ymgeisydd** | • A yw'r Ymgeisydd yn bwriadu cyflwyno'r 'llythyr dim rhwystr' y mae'n ei geisio gan y cyrff statudol perthnasol (h.y. NE/ CNC) i'r Archwiliad cyn iddo ddod i ben? Os felly, nodwch y graddfeydd amser o'i geisio i'r dyddiad pryd y mae'n debygol o gael ei gyflwyno. |
| Q2.4.12 | *Cais am Drwydded Forol (ML)*<br>**Yr Ymgeisydd/ CNC** | • Nodir y cyflwynwyd cais ML i CNC ar 23 Mai 2023. Gofynnir i'r Ymgeisydd a/ neu CNC roi diweddariad ar gynnydd y cais ML. |
| **5.** | **Newid yn yr Hinsawdd** | |

| ExQ2 | Cwestiwn ar gyfer: | Cwestiwn: |
|---|---|---|
| Q2.5.1 | *Mesurau Lliniaru/ Dylunio*<br>**Yr Ymgeisydd/ CWCC/ FCC/ CNC/ NE/ Coed Cadw/ IPs** | • Gallai'r ddarpariaeth coed a thirweddu newydd a ddisgwylir yng nghynllun y DCO fod yn fwy cadarn o ran y mesurau diogelu sydd ar gael yn erbyn unrhyw newidiadau i amodau hinsoddol neu amgylcheddol sy'n sbarduno methiant yn y dyfodol.<br>• Gofynnir i'r Ymgeisydd adolygu'r elfen hon o ddarpariaeth y cynllun yn drwyadl er mwyn ceisio ymestyn cyfnodau amnewid ynghyd â chynnig darpariaeth reoli dynnach yn y dyfodol sy'n cael ei sicrhau'n ffurfiol. Nod yr ymagwedd yw sicrhau bod yr holl blannu cyfnewid a newydd mor effeithiol â phosibl, ac yn cyflawni'r canlyniadau amgylcheddol uchaf posibl sy'n realistig.<br>• Byddai'r pwynt yn berthnasol hefyd i unrhyw elfen dirweddu oddi ar y safle nad yw wedi'i chyflwyno eto ond y nodir ei bod yn destun trafodaeth barhaus. |
| Q2.5.2 | *Mesurau Lliniaru/ Dylunio*<br>**Yr Ymgeisydd/ CWCC/ FCC/ CNC/ NE/ Coed Cadw/ IPs** | • Pa ddarpariaeth/ ymrwymiadau y gellir eu gwneud ar gyfer coed sy'n tyfu'n gyflym? Ac os felly, sut gellid ymrwymo i hynny a'i sicrhau'n ffurfiol?<br>• Sut gellir dewis rhywogaethau newydd i'w plannu sy'n gallu ymdopi â phwysau'r newid yn yr hinsawdd ac atgyfnerthu bywyd gwyllt brodorol?<br>• A yw'r sefydliadau cyhoeddus sy'n ymwneud â'r Archwiliad yn gallu rhoi argymhellion ychwanegol ynglŷn â materion cydnerthedd/ rhywogaethau gyda'r nod o roi cyngor penodol i leoliad? Os felly, gwahoddir eich sylwadau. |
| **6.** | **Caffael Gorfodol, Meddiant Dros Dro ac Ystyriaethau Tir neu Hawliau Eraill** | |
| Q2.6.1 | **Yr Ymgeisydd** | • Mae'r ExA yn nodi bod unrhyw opsiwn heb ei ddatgan ar gyfer y posibilrwydd o gaffael tir yn orfodol ar gyfer BNG a/ neu unrhyw ddiben gwella ecolegol ychwanegol yn debygol o fod yn anghydnaws ag amserlen bresennol yr archwiliad. Mae hyn o ganlyniad i'r cyfnodau statudol a ysgogir. Felly, mae'n hollbwysig bod unrhyw ddull sy'n delio â darpariaeth fioamrywiaeth oddi ar y safle yn derbyn sylw'n llawn fel ystyriaeth flaenoriaethol ac o fewn yr amserlen bresennol.<br>Gyda hyn mewn golwg, a yw'r Ymgeisydd yn ymwybodol o unrhyw Geisiadau i Newid eraill posibl a fyddai'n ysgogi Rheoliadau 5 i 19 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Caffael Gorfodol) 2010? |
| Q2.6.2 | *Rhwydwaith Ffyrdd Strategol (SRN)* - 'hawl briffordd' a 'hawliau eiddo isbridd' | • Tynnir eich sylw at [REP3-033] a Thabl 2.2, cyfeirnod 2.2.2.<br>A yw NH yn cytuno â'r rhagosodiad, ar ddyfnder penodol, y byddai NH yn peidio â bod yr Awdurdod Priffyrdd ar gyfer yr SRN ac y byddai'r iswyneb yn dychwelyd yn ôl i'r perchennog, boed hynny'n NH neu'n 'Unigolyn arall yr Effeithir Arno'? |

| ExQ2 | Cwestiwn ar gyfer: | Cwestiwn: |
|---|---|---|
| | **National Highways Ltd (NH)/ Llywodraeth Cymru/ Awdurdod Rheoleiddio Traffig Gogledd a Chanolbarth Cymru (NMWTRA)** | O ystyried cyfraith achosion ac o ran Lleiniau 5-06, 5-09 a 7-05, fel y'u dangosir ar y Cynlluniau Tir [REP2-014], ar ba ddyfnder y mae NH yn ystyried bod yr hawliau priffyrdd (sef arwyneb y ffordd, gofod awyr ac isbridd sy'n ofynnol ar gyfer gweithredu, cynnal a chadw ac atgyweirio'r briffordd) ar bob un o'r lleiniau hyn yn dod i ben a bod hawliau eiddo isbridd yn ailgychwyn? Rhowch gyfiawnhad i'ch ateb.<br>• Gofynnir i'r IPs a restrwyd ymateb i ateb yr Ymgeisydd a amlinellir yn y tabl a grybwyllwyd uchod, a'r cyfeirnod, yn enwedig o ran dyfnder 'hawl briffordd' ac ar ba bwynt y byddai hawliau eiddo isbridd yn digwydd. |
| Q2.6.3 | *Eglurhad*<br>**Rostons** | • Nodir eich cyflwyniad erbyn Terfyn Amser 1 [REP1-079], a wnaed ar ran Ms Craven-Smith-Milne a Mr Griffith. Byddai'r ExA yn ceisio gwybodaeth ychwanegol ynglŷn â'r cynllun solar arfaethedig a grybwyllwyd yn y llythyr. A wnewch chi gadarnhau p'un a oes cais cynllunio wedi cael ei wneud yn ffurfiol ar gyfer y cynllun solar arfaethedig hwn. Wrth ymateb, lle y bo'n bosibl, cyflenwch:<br>i) gyfeirnod y cais cynllunio a roddwyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl);<br>ii) copi o'r penderfyniad cynllunio a roddwyd gan yr ACLl. |
| Q2.6.4 | *Eglurhad*<br>**Yr Ymgeisydd/ CWCC** | • Yn unol â Q2.6.3 uchod, byddai'r ExA yn gofyn i'r Ymgeisydd/ CWCC gadarnhau p'un a ydynt yn ymwybodol o unrhyw gyflwyniad(au)/ cais/ ceisiadau, cynllunio neu fel arall, a gyflwynwyd yn ffurfiol ar gyfer y cynllun solar a grybwyllwyd uchod. Mae hyn yn cynnwys unrhyw gyflwyniadau na chofrestrwyd yn ffurfiol eto (h.y. 'Annilys'). Os oes cyflwyniad/ cais/ ceisiadau o'r fath wedi cael eu cyflwyno, lle y bo'n bosibl/ yn berthnasol, darparwch:<br>i. gyfeirnod y cyflwyniad/ cais cynllunio a roddwyd gan yr ACLl;<br>ii. disgrifiad o'r math o gais a'r datblygiad; a<br>iii. chopi o'r penderfyniad/ barn a roddwyd gan yr ACLl. |
| Q2.6.5 | *Eglurhad*<br>**Yr Ymgeisydd** | • Mae'r Ymgeisydd yn cyfeirio at ymgymryd ag Asesiad(au) Busnes Fferm, ond nid yw wedi nodi os/ pryd y byddai asesiadau o'r fath yn cael eu cynnal na ph'un a yw'n bwriadu cyflwyno asesiad(au) o'r fath i'r Archwiliad. Eglurwch, os gwelwch yn dda. |
| Q2.6.6 | *Eglurhad*<br>**Yr Ymgeisydd** | • Mae'r ExA yn nodi Dalen 2 a ddilëwyd o Gynlluniau Tir y Goron [REP3-004] a'r cyfiawnhad a roddwyd dros ddileu'r lleiniau perthnasol yn 'Rhestr Newidiadau i'r Llyfr Cyfeirio' [REP3-016] yr Ymgeisydd. Fodd bynnag, ni all yr ExA ddod o hyd i ddogfen |

| ExQ2 | Cwestiwn ar gyfer: | Cwestiwn: |
|---|---|---|
| | | debyg sy'n cyfiawnhau dileu Dalen 1 o Gynlluniau Tir y Goron. Cyfeiriwch at ble y gellir dod o hyd i'r esboniad hwn yn y dogfennau a gyflwynwyd neu esboniwch pam y dilëwyd Dalen 1 o Gynlluniau Tir y Goron. |
| **7.** | **Treftadaeth Ddiwylliannol a'r Amgylchedd Hanesyddol** | |
| Q2.7.1 | *Gwybodaeth*<br>**Yr Ymgeisydd/ CWCC / FCC** | • Amlygir ym mharagraff 2.3 [REP1-061], nad yw'r LEMP Amlinellol na'r Gofrestr Camau Gweithredu ac Ymrwymiadau Amgylcheddol [REP2-017] yn nodi unrhyw ofyniad pellach i fesurau lliniaru gael eu cyfeirio gan Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth ychwanegol, ac ni ddarperir ar ei gyfer yn uniongyrchol yng ngeiriad Gofynion y DCO drafft.<br>• Am y rheswm hwn, mae CWCC yn parhau i gredu y dylai asesiadau treftadaeth ychwanegol, gan gynnwys mesurau lliniaru priodol, gael eu darparu yn y CEMP Amlinellol neu dylid eu mynnu'n benodol yng Ngofynion y DCO. Ceisir barn yr Ymgeisydd am ymagwedd o'r fath.<br>**CWCC**<br>• A all CWCC roi unrhyw wybodaeth i'r Archwiliad am yr asedau treftadaeth penodol dan sylw, gan gynnwys unrhyw arfarniadau neu arolygon risg perthnasol o fewn ei ardal weinyddol?<br>• A oes gan CWCC gyngor gan Swyddog Treftadaeth/ Cadwraeth y gall ei gyfeirio at yr Archwiliad er mwyn ymdrin â'r mater hwn?<br>• A oes gan y Cyngor weithgor annibynnol, neu rywbeth tebyg, y gellir cael cyngor ar dreftadaeth ganddo a'i fwydo i'r Archwiliad?<br>• A all y Cyngor egluro ei safbwyntiau ar oblygiadau diwylliannol a threftadaeth y cynnig, gan gynnwys Camlas Undeb Swydd Amwythig?<br>• Nodwch unrhyw geisiadau am fesurau lliniaru penodol, fel tirweddu ychwanegol neu unrhyw fesurau eraill na ddisgrifiwyd eisoes.<br>**FCC/ CWCC**<br>• A fyddai'n briodol ymgorffori gwelliannau gwerthfawrogi diwylliannol yn nyluniad y cynllun? Er enghraifft, arddangosiad/ hysbysiadau gwybodaeth gyhoeddus yn agos i hawliau tramwy cyhoeddus sy'n gysylltiedig ag unrhyw asedau treftadaeth y mae'r cynllun yn effeithio arnynt, neu'n gysylltiedig â llwybr diwylliannol/ treftadaeth lleol neu rywbeth tebyg? |

| ExQ2 | Cwestiwn ar gyfer: | Cwestiwn: |
|---|---|---|
| Q2.7.2 | *Gwybodaeth*<br>**FCC** | • A all FCC ddarparu unrhyw wybodaeth i'r Archwiliad am yr asedau treftadaeth a diwylliannol penodol y mae'r cynllun yn effeithio arnynt o fewn ei ardal weinyddol, gan gynnwys unrhyw arfarniadau neu arolygon risg a gynhaliwyd?<br>• A oes gan FCC gyngor gan Swyddog Treftadaeth/ Cadwraeth y gall ei gyfeirio at yr Archwiliad er mwyn ymdrin â materion treftadaeth?<br>• A fyddai'n briodol ymgorffori gwelliannau gwerthfawrogi diwylliannol yn nyluniad y cynllun? Er enghraifft, hysbysiadau gwybodaeth gyhoeddus yn agos i hawliau tramwy cyhoeddus sy'n gysylltiedig ag unrhyw asedau treftadaeth y gallai'r cynllun effeithio arnynt, neu'n gysylltiedig â llwybr diwylliannol/ treftadaeth lleol neu rywbeth tebyg?<br>• A all y Cyngor egluro ymhellach ei safbwyntiau ar oblygiadau diwylliannol a threftadaeth y cynnig, gan gynnwys unrhyw geisiadau am fesurau lliniaru nad ydynt yn cael eu hystyried ar hyn o bryd, fel tirweddu neu unrhyw fesur arall pe ystyrid ei fod yn briodol. |
| Q2.7.3 | *Archaeoleg*<br>**Yr Ymgeisydd** | • Mae Historic England yn cydnabod bod y Cynllun Ymchwilio Ysgrifenedig Amlinellol yn gadarn, ond mae'n tynnu sylw at yr angen i waith gwerthuso cychwynnol gael ei ddylunio a'i dargedu'n ofalus. Sut bydd yr Ymgeisydd yn sicrhau bod hyn yn digwydd? |
| Q2.7.4 | *Archaeoleg*<br>**Yr Ymgeisydd** | • Crybwyllir torri ffosydd wedi'u targedu mewn perthynas ag archaeoleg (gweler [REP1-042] cyfeirnod 2.35.4). Cadarnhewch b'un a yw hyn wedi cael ei wneud. Os na, pryd y bwriedir ei wneud? Os yw wedi cael ei wneud, pryd bydd y canlyniadau'n cael eu cyflwyno i'r Archwiliad?<br>Yn ogystal, mae'r Ymgeisydd yn cyfeirio at ddefnyddio 'clerc gwaith archaeolegol dynodedig, os bydd angen, neu aelod o'r tîm cloddio i gynnal adolygiadau dwywaith yr wythnos… i sicrhau bod olion archaeolegol yn cael eu hamlygu a'u cofnodi.' Sut bydd yr Ymgeisydd yn gwneud yn siŵr bod pwy bynnag a benodir yn briodol o gymwys a sut bydd hyn yn cael ei sicrhau? |
| Q2.7.5 | *Archaeoleg*<br>**Yr Ymgeisydd** | • Nodir ymateb yr Ymgeisydd [REP2-040] i gais Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd Powys am Friff Gwylio Archaeolegol ar gyfer yr holl waith yn ystod adeiladu. Fodd bynnag, byddai'r ExA yn gofyn iddo ymhelaethu ar y rhesymau pam nad yw'n credu bod y cais yn gymesur. |
| **8.** | **Dyluniad a Gosodiad** | |

| ExQ2 | Cwestiwn ar gyfer: | Cwestiwn: |
|---|---|---|
| Q2.8.1 | *Estheteg*<br>**Yr Ymgeisydd** | • Faint o gyfle sydd i wella estheteg y cynllun ymhellach o ran yr agweddau ar lwybr y biblinell ar ben y tir?<br>• Esboniwch ymhellach sut rydych wedi ystyried canllawiau polisi dylunio da fel ystyriaeth bwysig a pherthnasol, yn enwedig y cysyniad o gyflawni 'harddwch' y cyfeirir ato yn y Fframwaith.<br>• Gofynnir i'r Ymgeisydd gynnal adolygiad a arweinir gan yr Ymgeisydd o'r holl ddarpariaeth tirweddu meddal a chaled (gan gynnwys steil ffensys perimedr) a nodwyd hyd yma ac archwilio sut gall hybu a gwella estheteg fel opsiynau credadwy sydd ar gael yn awr yn hytrach na'i gadael fel gofyniad dilynol yn ddiweddarach.<br>• Yn dilyn yr adolygiad a gynhaliwyd gan yr Ymgeisydd, mae'r ExA yn gofyn i'r Ymgeisydd gyflwyno syniad o'i ymrwymiadau manwl i wella esthetig ar yr adeg hon i'r Archwiliad, fel arwydd yn y dyfodol o'r ansawdd dylunio y byddai'n anelu ato, gan dybio hefyd bod unrhyw ofyniad DCO yn cael ei weithredu wedi hynny. |
| Q2.8.2 | *Goleuo*<br>**Yr Ymgeisydd** | • Esboniwch sut byddai goleuadau'n cael eu rheoli'n ddigonol, ynghyd ag unrhyw faterion/ pryderon sy'n deillio ohonynt, yn ystod adeiladu a gweithredu. |
| **9.** | **Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol/ Datganiad Amgylcheddol** | |
| Q2.9.1 | **Dd/B** | • Nid oes rhagor o gwestiynau ar yr adeg hon. |
| **10.** | **Perygl Llifogydd, Hydroleg, Adnoddau Dŵr a Halogiad** | |
| Q2.10.1 | *Perygl Llifogydd*<br>**Yr Ymgeisydd/ CNC** | • Gan ystyried ymatebion Terfyn Amser 2, mae CNC yn cyfeirio at a.165 Deddf Adnoddau Dŵr 1991. Mae gan CNC bŵer i gael mynediad i dir i gynnal gwaith rheoli perygl llifogydd. Nid yw darpariaethau'r DCO yn drech na'r pwerau hyn ac nid oes angen i CNC gael caniatâd ar wahân o dan y DCO i arfer ei bwerau o dan a.165 Deddf Adnoddau Dŵr 1991. Felly, mae CNC yn cynghori na ddylai fod rhwystr ffisegol rhag cael mynediad i asedau amddiffyn rhag llifogydd. Yn unol â hynny, mae CNC o'r farn y dylai'r DCO sicrhau hyn fel mater o ddylunio/ adeiladu.<br>• A all y manylion dylunio ac adeiladu a awgrymwyd gael eu cyflwyno i'r Archwiliad yn unol â chais CNC? |
| Q2.10.2 | *Perygl llifogydd*<br>**Yr Ymgeisydd/ CNC** | • Mae CNC wedi nodi os oes unrhyw rai o'r cyfadeiladau adeiladu o fewn 16m o Lannau Penarlâg a Gogleddol prif afon Dyfrdwy, byddai angen iddynt gael trwydded amgylcheddol (Trwydded Gweithgarwch Perygl Llifogydd) o dan Reoliadau Trwyddedu |

| ExQ2 | Cwestiwn ar gyfer: | Cwestiwn: |
|---|---|---|
| | | Amgylcheddol 2016 y mae CNC yn awdurdod cydsynio ar eu cyfer. Felly, byddai angen i leoliad cyfadeiladau gael ei ystyried wrth benderfynu ar unrhyw gais o'r fath a byddai'n amodol ar gymeradwyaeth CNC.<br>• A yw'r Ymgeisydd yn cydnabod bod hwnnw'n gam angenrheidiol?<br>• Sut bydd/ dylai hynny gael ei gynnwys yn y DCO fel ymrwymiad ffurfiol i'w gyflawni? |
| Q2.10.3 | *Draenio/ Amgylchedd dŵr*<br>**Asiantaeth yr Amgylchedd (EA)/ CNC/ United Utilities Water (UUW)**<br>**FCC/ CWCC/ IPs** | • Mae'r Ymgeisydd yn cydnabod bod manylion dylunio draenio dŵr wyneb dangosol ar gyfer y Gosodiadau ar Ben y Tir (AGI) a'r Gorsafoedd Falfiau Bloc (BVS) wedi'u cynnwys yn y Strategaeth Draenio Dŵr Wyneb Amlinellol [CR1-111]. Byddai'r strategaeth a dyluniad dangosol y system ddraenio yn cael eu datblygu ar y cam dylunio manwl ac yn cael eu sicrhau trwy Ofyniad 8 (Draenio Dŵr Wyneb) yn y DCO drafft [REP3-005]. Byddai'r cynllun draenio dŵr wyneb ar gyfer AGIs a BVSs yn cael ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio perthnasol a'i gymeradwyo ganddo, yn ogystal â'r EA a/ neu CNC a/ neu'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol, lle y bo'n berthnasol.<br>• A oes gan IPs unrhyw sylwadau ar yr ymagwedd honno, o ystyried newidiadau polisi/ deddfwriaethol a allai gael eu gweithredu?<br>• A fyddai'r dulliau trin Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) a awgrymir yn bodloni'r gofynion rheoli llygredd, amwynder, a bioamrywiaeth? Os na, nodwch pam? |
| Q2.10.4 | *Draenio/ Amgylchedd dŵr*<br>**EA/ CNC/ UUW/ FCC/ CWCC/ IPs** | • Mae'r Ymgeisydd yn nodi bod y cynnig draenio presennol yn dilyn yr Ymagwedd Mynegai Syml a awgrymir gan Lawlyfr SuDS CIRIA C753 er mwyn gwerthuso ansawdd dŵr. Nodir bod y cynllun wedi'i ddylunio fel bod cyfanswm y mynegai lliniaru llygredd yn fwy na'r mynegai perygl llygredd. Mae'r Ymgeisydd wedi darparu manylion yn y Strategaeth Draenio Dŵr Wyneb Amlinellol a gyflwynwyd hefyd [CR1-111].<br>• A yw'r ymagwedd a nodwyd yn ddigonol o ystyried unrhyw ansicrwydd presennol ynglŷn â mesur amodau dŵr wyneb a daear? |
| Q2.10.5 | *Halogiad*<br>**Yr Ymgeisydd** | • Nodir ymateb yr Ymgeisydd [REP2-037] i ateb yr EA yn Q1.10.9 [REP1-062], ac felly hefyd ymateb yr EA erbyn Terfyn Amser 3 [REP3-045]. Gofynnir i'r Ymgeisydd esbonio sut mae'n bwriadu datrys y materion sy'n codi ynglŷn â 'Materion Cysylltiedig â Thir Halogedig.' |
| **11.** | **Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd** | |
| Q2.11.1 | *Safleoedd Ewropeaidd*<br>**NE/ CNC/ IPs** | • Dangosir lleoliadau safleoedd Ewropeaidd a amlygwyd gan yr Ymgeisydd yn berthynol i'r Datblygiad Arfaethedig yn Atodiad A Ffigur 9.1.1, Dalenni 1, 2 a 3 ES Atodiad 9.1 [CR1-054]. |

| ExQ2 | Cwestiwn ar gyfer: | Cwestiwn: |
|---|---|---|
| | | • Yn ei ymateb erbyn Terfyn Amser 1 [REP1-070], mae NE yn crybwyll bod safleoedd Ewropeaidd ychwanegol o fewn 10km o safle'r cais ac yn awgrymu y gallai'r Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) gael ei ddiwygio er mwyn eglurder. Diwygiwch y ddogfen hon yn unol â hynny a'i chyflwyno erbyn y Terfyn Amser nesaf. |
| Q2.11.2 | *Safleoedd Ewropeaidd*<br>**Yr Ymgeisydd** | • Cadarnhaodd CNC yn REP1-071 ei fod yn cytuno â'r safleoedd a'r nodweddion a ystyriwyd yn HRA yr Ymgeisydd. Mae paragraff 5.1.1 yr Adroddiad HRA (HRAR) wedi'i ddiweddaru [REP2-023] yn adlewyrchu pellterau diwygiedig y safleoedd Ewropeaidd a amlygwyd o'r Datblygiad Arfaethedig oherwydd y newidiadau a gynhwyswyd yng Nghais i Newid 1. Fodd bynnag, nid yw'r holl ddiwygiadau hyn wedi'u hadlewyrchu yn y matricsau sgrinio a gynhwysir yn Adran 6.3 HRAR ac nid ydynt ychwaith yn adlewyrchu nac yn gyson â'r holl newidiadau a wnaed i Dabl 2 Atodiad 9.1 yr ES wedi'i ddiweddaru [CR1-054].<br>• A all yr Ymgeisydd gadarnhau pa ffigurau sy'n gywir a pha rai a ddefnyddiwyd i lywio'r HRA wedi'i ddiweddaru. |
| Q2.11.3 | *LSE*<br>**Yr Ymgeisydd** | • Mae paragraff 6.2.12 yr HRAR yn cyfeirio at astudiaethau sydd wedi 'ystyried effeithiau sŵn ar adar yn ystod cyfnod y gaeaf' ac yn awgrymu bod lefelau >56dB yn gallu effeithio ar rydwyr a bod lefelau >85dbA yn gallu effeithio ar yr holl adar dŵr. Fodd bynnag, nid yw hyn yn arbennig o glir ac nid oes datganiad penodol ynglŷn â pha lefelau sŵn y mae'r Ymgeisydd yn ystyried y gallent arwain at LSE neu Effaith Niweidiol ar Gyfanrwydd (AEoI).<br>At hynny, dangosir lefelau sŵn adeiladu a ragfynegir yn Ffigur 15.2 yr ES [APP-209] – ond nid yw'n ymddangos bod unrhyw lefelau sŵn a ragfynegir o amgylch croesfan Afon Dyfrdwy. Yn gyffredinol, mae lefelau sŵn a ragfynegir yn ymddangos fel petaent yn uchafswm o 75dB LAeq T ac mae paragraff 6.2.14 yn tybio bod aflonyddu arwyddocaol yn annhebygol y tu hwnt i bellter o 300m. Fodd bynnag, nid yw'n glir p'un a oes unrhyw Dir â Chysylltiad Swyddogaethol (FLL) o fewn y llain glustogi 300m hon ac mae NE wedi herio'r cyffredinoliad hwn [RR-065].<br>O ystyried yr uchod, a all yr Ymgeisydd:<br>i. Gadarnhau faint o FLL y mae wedi'i dybio yn ei asesiad ar gyfer nodweddion cymwys Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA)/ Ramsar Aber Afon Mersi ac AGA/ Ramsar Aber Afon Dyfrdwy; byddai'n ddefnyddiol pe byddai ffigur yn cael ei roi.<br>ii. Egluro sut y cadarnhawyd maint FLL. |

| ExQ2 | Cwestiwn ar gyfer: | Cwestiwn: |
|---|---|---|
| | | iii. Cadarnhau ac esbonio'r lefelau sŵn y mae'n credu y byddent yn arwain at LSE neu AEoI. |
| Q2.11.4 | *LSE*<br>**Yr Ymgeisydd** | • A all yr Ymgeisydd roi manylion ychwanegol am lefelau sŵn a ddisgwylir o'r holl weithgareddau adeiladu (nid dim ond wrth groesfan Afon Dyfrdwy), ac amlygu p'un a fyddai unrhyw un o'r lefelau sŵn y mae'n credu y byddent yn arwain at LSE neu AEoI (gweler y cwestiwn uchod) yn cael eu torri ar FLL a allai gael ei ddefnyddio gan adar AGA/ Ramsar Aber Afon Mersi ac AGA/ Ramsar Aber Afon Dyfrdwy?<br>• A all yr Ymgeisydd gadarnhau p'un a oes unrhyw elfennau amledd uchel a allai ddychryn yn ystod adeiladu yn agos i'r safleoedd hyn? |
| Q2.11.5 | *LSE*<br>**NE** | • Ar ba nodweddion cymwys o ba safleoedd y mae NE o'r farn y gallai LSE ddeillio o aflonyddu sŵn? |
| Q2.11.6 | *LSE*<br>**Yr Ymgeisydd** | • Mae Tabl 6.10 yn yr HRAR a gyflwynwyd yn amlygu'r posibilrwydd o LSE sy'n deillio o effeithiau aflonyddu cyfunol ar rywogaethau adar o:<br>- AGA Aber Afon Mersi;<br>- Ramsar Aber Afon Mersi;<br>- AGA Aber Afon Dyfrdwy; a<br>- Ramsar Aber Afon Dyfrdwy.<br>• Gofynnir i'r Ymgeisydd gadarnhau pa nodweddion cymwys o bob safle a pha fath o aflonyddu (h.y., gweledol/ goleuo/ sŵn) y mae'r casgliad hwn yn berthnasol iddynt? |
| Q2.11.7 | *LSE*<br>**CNC** | • Gofynnodd CNC [RR-066] am fesurau lliniaru i osgoi'r prif amser rhedeg ar gyfer rhywogaethau pysgod allweddol er mwyn sicrhau bod effeithiau o'r fath yn lleiafsymiol a cheisiodd eglurhad ynglŷn â'r amserlenni ar gyfer croesfannau di-ffos Afon Dyfrdwy.<br>• A all CNC gadarnhau beth fyddai'r 'prif amser rhedeg' ar gyfer llysywod pendoll y môr a llysywod pendoll yr afon? |
| Q2.11.8 | *LSE*<br>**CNC** | • Ar sail ymateb yr Ymgeisydd [REP1-042] i sylwadau CNC yn ei Sylw Perthnasol (RR) [RR-066] ynglŷn â chanlyniadau posibl ffracio allan, a yw CNC yn cytuno na fyddai LSE ar nodweddion llysywod pendoll y môr a llysywod pendoll yr afon Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Aber Afon Dyfrdwy? |

| ExQ2 | Cwestiwn ar gyfer: | Cwestiwn: |
|---|---|---|
| Q2.11.9 | *LSE*<br>**Yr Ymgeisydd** | • A all yr Ymgeisydd gadarnhau p’un a yw’r casgliad ynghylch LSE ar gyfer effeithiau llwch cyfunol yn ymwneud â rhywogaethau pysgod cymwys yn unig, neu gynefinoedd a/ neu ddyfrgwn ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid hefyd. |
| Q2.11.10 | *LSE*<br>**Yr Ymgeisydd** | • Gofynnir i’r Ymgeisydd gadarnhau’r llwybr effaith sy’n arwain, yn ei farn ef, at LSE bosibl ar ddyfrgwn ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid o’i ystyried ar y cyd â Datblygiadau Eraill y cyfeiriwyd atynt (Tabl 6.10 yr HRAR [REP2-023]). |
| Q2.11.11 | *Gwybodaeth*<br>**Yr Ymgeisydd/ IPs** | • Mae’r rhestr o gyrsiau dŵr lle y cofnodwyd arwyddion dyfrgwn a gynhwysir ym mharagraff 4.4.7 yr HRAR wedi’i ddiweddaru yn cynnwys lleoliadau ychwanegol o fewn ac yn agos i’r Ffin Adeiladu Seilwaith o’r Newydd. A aseswyd effeithiau posibl ar ddyfrgwn, sef nodwedd o ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid, yn y lleoliadau hyn? Os na, darparwch asesiad wedi’i ddiweddaru ar gyfer y nodwedd hon. |
| Q2.11.12 | *Gwybodaeth*<br>**Yr Ymgeisydd/ CNC/ FCC** | • A all yr Ymgeisydd gadarnhau hyd y gwyriadau ffyrdd a fyddai wedi’u lleoli o fewn 200m o ACA Safleoedd Madfallod Glannau Dyfrdwy a Bwcle a symudiadau disgwyliedig cerbydau ar hyd y gwyriadau hyn.<br>**CNC/ FCC**<br>• A yw CNC/ FCC yn fodlon nad oes angen asesu effeithiau ansawdd aer o’r gwyriadau hyn? |
| Q2.11.13 | *Gwybodaeth*<br>**Yr Ymgeisydd** | • Gofynnir i’r Ymgeisydd gadarnhau’r ymagwedd a ddefnyddiwyd at asesu’r cyrff dŵr nad oeddent yn destun yr asesiad Mynegai Addasrwydd Cynefinoedd ar gyfer Madfallod Dŵr Cribog (GCN), gan gynnwys y pum corff dŵr ychwanegol a gynhwyswyd oherwydd y newidiadau arfaethedig (HRAR paragraff 4.3.6) ond nad oeddent yn destun arolwg oherwydd amlygwyd eu bod y tu allan i’r cyfnodau arolygu tymhorol. |
| Q2.11.14 | *Gwybodaeth*<br>**Yr Ymgeisydd** | • Mae’r ExA yn nodi bod y Datganiad Tir Cyffredin (SoCG) drafft gyda CNC [REP1-023] yn amlygu nad yw’n ymddangos bod y pellterau gwasgaru diwygiedig ar gyfer GCN, fel yr amlinellir yng nghanllawiau’r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur a ddiweddarwyd yn 2022, wedi’u hadlewyrchu yn yr HRAR, a bod y mater hwn yn cael ei drafod ar hyn o bryd. Gofynnir i’r Ymgeisydd roi diweddariad ar y mater hwn, gan gynnwys os/ pryd y bydd yr asesiad yn yr HRAR yn cael ei ddiweddaru o ganlyniad. |
| Q2.11.15 | *Gwybodaeth*<br>**CNC** | • Yng ngoleuni ymateb yr Ymgeisydd i bryderon CNC a amlinellwyd yn ei Sylwadau Ysgrifenedig a’i ymateb i ExQ1 [REP1-071] ynglŷn â’r arolygon GCN a gynhaliwyd gan |

| **ExQ2** | **Cwestiwn ar gyfer:** | **Cwestiwn:** |
|---|---|---|
| | | yr Ymgeisydd, gofynnir i CNC ddatgan a yw'n fodlon bod yr arolygon a'r mesurau lliniaru arfaethedig yn ddigonol a chadarnhau ei safbwynt ynghylch dim AEoI ar ACA Safleoedd Madfallod Glannau Dyfrdwy a Bwcle. |
| Q2.11.16 | *Gwybodaeth*<br>**Yr Ymgeisydd** | • Nododd Atodiad A yr HRAR [REP2-023] fod ACA Aber Afon Dyfrdwy, AGA Aber Afon Dyfrdwy a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy mewn cyflwr ffafriol. A all yr Ymgeisydd gadarnhau bod y ddealltwriaeth hon yn gywir? A all yr Ymgeisydd ddarparu'r statws cadwraeth presennol ar gyfer yr holl safleoedd sy'n weddill yr amlygwyd LSE ar eu cyfer? |
| **12.** | **Tirwedd a Gweledol** | |
| Q2.12.1 | **Dd/B** | • Gweler yr adran 'Dyluniad a Gosodiad' ar gyfer cwestiynau perthnasol. |
| **13.** | **Adnoddau Mwynau** | |
| Q2.13.1 | **Dd/B** | • Dim cwestiynau ar yr adeg hon. |
| **14.** | **Sŵn a Dirgryniad** | |
| Q2.14.1 | *Arolwg*<br>**Yr Ymgeisydd** | • Mae'r ExA yn nodi nad yw effeithiau sŵn a dirgryniad ar fywyd dyfrol yn cael eu cefnogi gan arolwg ategol, ac felly mae unrhyw asesiad neu gasgliad a wneir ar hyn o bryd wedi'i seilio ar farn i raddau helaeth. A all yr Ymgeisydd gyfiawnhau ymhellach ei ymagwedd at asesu'r effeithiau llawn ar fywyd dyfrol o ystyried y goblygiadau i warchod ecoleg? |
| Q2.14.2 | *Arolwg*<br>**Yr Ymgeisydd** | • A ddisgwylir i waith arolygu dyfrol ychwanegol lywio'r Archwiliad ac, os felly, pryd caiff ei gyflwyno'n ffurfiol? |
| **15.** | **Polisi Cynllunio** | |
| Q2.15.1 | *Polisi Cenedlaethol*<br>**Yr Ymgeisydd/ FCC/ CWCC/ IPs** | • O ran Polisi Cynllunio Cenedlaethol ar gyfer Cymru a Lloegr, mae Cynllunio ar gyfer seilwaith ynni newydd: diwygiadau i Ddatganiadau Polisi Cenedlaethol (NPS) yn debygol o fod yn berthnasol. Gweler Cynllunio ar gyfer seilwaith ynni newydd: adolygiad o Ddatganiadau Polisi Cenedlaethol ynni. Mae hyn yn cynnwys ymgynghoriad ar yr NPS EN-1 trosfwaol drafft; NPS EN-3 drafft ar gyfer Seilwaith Ynni Adnewyddadwy; NPS EN-4 drafft ar gyfer Seilwaith Cyflenwi Nwy a Phiblinellau Nwy ac Olew; HRA o'r adolygiad NPS ynni; yn ogystal ag Arfarniad o Gynaliadwyedd: Prif Adroddiad. |

| ExQ2 | Cwestiwn ar gyfer: | Cwestiwn: |
|---|---|---|
| | | • A yw'r Ymgeisydd neu unrhyw IPs yn dymuno gwneud sylwadau ar oblygiadau'r ymgynghoriad i'r Archwiliad, gan gynnwys statws penderfynu'r dogfennau drafft y cyfeiriwyd atynt?<br>• Yn ogystal: - Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried yr ymgynghoriad ar Newidiadau polisi a dargedir i Bolisi Cynllunio Cymru ynglŷn â Budd Net i Fioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau (sy'n ymgorffori newidiadau i gryfhau'r polisi ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Coed a Choetiroedd a Seilwaith Gwyrdd). A oes unrhyw sylwadau ar oblygiadau hynny, mewn perthynas â'r canlyniadau ecolegol tebygol a ddisgwylir o'r cynllun DCO presennol hwn? |
| Q2.15.2 | *Strategaeth Genedlaethol*<br>**Yr Ymgeisydd/ FCC/ CNC/ EA/ IPs** | • Mae'r ExA yn cydnabod bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cyhoeddi'r 'Adolygiad o Systemau Draenio Cynaliadwy' ar 10 Ionawr 2023 a'i bod wedi derbyn yr argymhelliad i wneud SuDS yn orfodol ar gyfer datblygiadau newydd yn Lloegr ac y bydd yn symud ymlaen â'r cam gweithredu. Mae'r Llywodraeth wedi nodi y bydd yn llunio rheoliadau a phrosesau ar gyfer creu systemau SuDS trwy weithredu Atodlen 3 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Disgwylir i'r ymagwedd newydd gael ei gweithredu yn ystod 2024 ac felly dylai unrhyw ganlyniadau/ goblygiadau i'r datblygiad DCO dderbyn sylw ar yr adeg hon.<br>• Y nod cyffredinol yw lleihau perygl llifogydd dŵr wyneb, llygredd a helpu i leddfu'r pwysau ar systemau draenio a charthffosiaeth traddodiadol, gan leihau faint o ddŵr sy'n mynd i mewn i'r carthffosydd a gollyngfeydd gorlifoedd stormydd.<br>• Mae'r ExA yn gofyn a fyddai mesurau lliniaru draenio newydd, yn berthnasol i'r cynllun DCO a'i reolaeth yn y dyfodol, yn cyd-fynd â'r newidiadau polisi/ deddfwriaethol sydd i'w rhoi ar waith? Esboniwch eich rhesymeg y naill ffordd neu'r llall. |
| Q2.15.3 | *Polisi Lleol*<br>**FCC** | • O ran Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint 2015-2030 (a fabwysiadwyd ym mis Ionawr 2023). Mae'r ExA yn gofyn i'r holl eiriad polisi, a thestun ategol, sy'n berthnasol i'r ddogfen hon yr oedd y Cyngor wedi nodi mewn gohebiaeth gynharach eu bod yn berthnasol i'r Datblygiad Arfaethedig hwn, yn cael eu cyflwyno'n ffurfiol i'r Archwiliad.<br>• Nodir bod 'Polisi Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd' FCC wedi'i ddisodli gan 'Strategaeth Newid Hinsawdd' FCC. Beth yw sail, arwyddocâd a nodau'r strategaeth? A yw'n rhan o'r cynllun datblygu neu'n strategaeth gorfforaethol ar wahân? Rhowch y manylion llawn a chopi o'r geiriad i'r Archwiliad.<br>• Gofynnir i'r Cynllun Cymdogaeth y mae FCC yn nodi ei fod yn berthnasol i'r ardal o dir y mae'r DCO yn effeithio arni gael ei gyflwyno i'r Archwiliad. |

| ExQ2 | Cwestiwn ar gyfer: | Cwestiwn: |
|---|---|---|
| | | • Bydd copïau electronig yn ddigonol ac yn amgenach. |
| Q2.15.4 | *Polisi Lleol*<br>**Yr Ymgeisydd** | • Cyfeiriwch yr ExA at ble yn y dogfennau a gyflwynwyd y mae'r Ymgeisydd wedi asesu cydymffurfedd y datblygiad arfaethedig ag elfen 'Cefn Gwlad' Polisi STRAT 9 Rhan 1 Cynllun Lleol CWCC. Os nad yw'n mynd i'r afael â hi, adolygwch a rhowch sylw iddi, fel y bo'r angen, a chyflwynwch yr asesiad o'r elfen hon i'r Archwiliad. |
| Q2.15.5 | *Polisi Cenedlaethol a Lleol*<br>**Yr Ymgeisydd** | • Cyflwynir 'niwed arall' yng nghyd-destun dynodiadau polisi Llain Las/ Lletem Las yn Natganiad Cynllunio [REP2-015] yr Ymgeisydd. Fodd bynnag, mae dealltwriaeth o gydbwysedd 'niwed arall' sy'n deillio o'r cynnig o gymharu â'r niwed diffiniadol i'r Llain Las/ Lletem Las yn ymddangos yn aneglur o'r wybodaeth a gyflwynwyd hyd yma. Adolygwch hyn a rhowch sylw iddo, fel y bo'n briodol. |
| **16.** | **Effeithiau Economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys Iechyd y Boblogaeth ac Iechyd Dynol** | |
| Q2.16.1 | *Maes Ymarfer Golff Sealand*<br>**Yr Ymgeisydd/ Maes Ymarfer Golff Sealand/ IPs** | • O ystyried [REP2-039] a lleoliad Maes Ymarfer Golff Sealand/ Sealand Road, nodir bod Deeside Lane yn caniatáu mynediad i faes parcio ar gyfer cwsmeriaid.<br>• Esboniwch ymhellach beth fyddai effeithiau tebygol cam adeiladu'r datblygiad ar y Cwrs Golff o ran masnach a sut gellir mesur y rhain yn llwyddiannus.<br>• Eglurwch ba fesurau fyddai'n cael eu cymryd i sicrhau bod unrhyw lwybrau cerbydau neu aflonyddwch sŵn yn cael eu lleihau i lefel dderbyniol.<br>• Sut gellir ystyried bod yr ES yn mesur yn gywir unrhyw LSEs/effeithiau anuniongyrchol ar y busnes a'i sylfaen gwsmeriaid a allai fod yn ddibynnol ar dwristiaeth/ gweithgarwch cysylltiedig tymhorol? |
| **17.** | **Trafnidiaeth a Thraffig** | |
| Q2.17.1 | *2 Sisters Food Group*<br>**Yr Ymgeisydd/ 2 Sisters Food Group/ Llywodraeth Cymru (fel Awdurdod Priffyrdd)/ FCC/ IPs** | • Mae 2 Sisters Food Group wedi manylu ar faterion parcio mewn sylwadau a gyflwynwyd i'r Archwiliad. A allai'r Ymgeisydd gadarnhau ei gynigion i ddatrys problemau parcio a achosir gan y datblygiad/ gwaethygiad problemau parcio presennol?<br>Beth fyddai'r effeithiau ar y busnes pe na ellir datrys y materion hyn yn foddhaol?<br><br>Pa fesurau osgoi/ lliniaru y gellir eu mabwysiadu?<br><br>**FCC/ IPs**<br>• A oes unrhyw dir/ cyfleuster parcio 'cyhoeddus' ar gael i'w ddefnyddio fel opsiwn dichonadwy? |

| ExQ2 | Cwestiwn ar gyfer: | Cwestiwn: |
|---|---|---|
| Q2.17.2 | Existing Highway Infrastructure/ Road maintenance<br>**Llywodraeth Cymru/ NMWTRA** | • Mae'r ExA yn nodi nad oedd Llywodraeth Cymru/ NMWTRA wedi ymateb i ExQ1 Q1.17.4. Ildiodd FCC i Lywodraeth Cymru/ NMWTRA o ran y cwestiwn hwn a Q1.17.5 (Gweler [PD-013] (Cymraeg)/ [PD-014] (Saesneg)). Gofynnir i Lywodraeth Cymru/ NMWTRA ymateb i'r cwestiynau hyn. |
| Q2.17.3 | *Datrys gwrthdaro*<br>Y Post Brenhinol | • Nodir ymateb yr Ymgeisydd i'r cyflwyniadau erbyn Terfyn Amser 1 [REP2-039] a thabl 2.9. Byddai'r ExA yn gofyn i'r Post Brenhinol a yw'r ymateb hwn yn mynd i'r afael â'i bryderon blaenorol? |
| **18.** | **Rheoli Gwastraff** | |
| Q2.18.1 | **Yr Ymgeisydd/ EA/ CNC/ NE/ Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd/ IPs** | • Gallai rhywogaethau planhigion goresgynnol fod yn bresennol neu beidio yn yr ardal neu ar y tir y mae'r datblygiad DCO yn effeithio arni/ arno. Mae'r ExA yn nodi nad yw'n ymddangos bod unrhyw ddull sy'n ymdrin yn benodol â rhywogaethau planhigion goresgynnol yn ystod adeiladu sy'n gyfystyr â 'Gwastraff a Reolir' pe deuir o hyd iddynt a bod angen cael gwared arnynt (h.y. byddai pridd yr effeithir arno gan 'glymog Japan' yn gyfystyr â Gwastraff a Reolir).<br><br>Pa ddulliau ffurfiol fyddai ar waith yn y DCO i ymdrin â phlanhigion goresgynnol fel clymog Japan pe byddent yn cael eu hadnabod ar unrhyw gam?<br><br>A oes angen gwneud gwaith arolygu i ymchwilio i bresenoldeb rhywogaethau planhigion goresgynnol ar y cam hwn? Os na, nodwch pam.<br><br>A oes angen i ofynion/ ymrwymiadau penodol ychwanegol ar gyfer gwaith arolygu neu waredu planhigion goresgynnol gael eu cynnwys yn y DCO ar gyfer rhywogaethau planhigion goresgynnol? Os na, nodwch pam. |
| **19.** | **Gorchymyn Caniatâd Datblygu Drafft** | |
| Q2.19.1 | Deddf Llywodraeth Leol 1972, *a.111*<br>**Yr Ymgeisydd/ FCC/ CWCC** | • A yw'r Ymgeisydd/ FCC/ CWCC/ IPs yn disgwyl defnyddio dulliau sydd ar gael o dan a.111 Deddf Llywodraeth Leol 1972 o fewn y DCO (h.y., i sicrhau darpariaeth oddi ar y safle, neu unrhyw ofyniad arall sy'n berthnasol)? |

**ExQ2: 15 Mehefin 2023**

**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 5: Dydd Mawrth 4 Gorffennaf 2023**

| ExQ2 | Cwestiwn ar gyfer: | Cwestiwn: |
|---|---|---|
| Q2.19.2 | *Gwella Bioamrywiaeth/ Darparu BNG oddi ar y safle*<br>**Yr Ymgeisydd** | • Sut byddai'r DCO yn ymdrin â'r ddarpariaeth gwella ecolegol/BNG oddi ar y safle a grybwyllwyd gan yr Ymgeisydd os bwriedir i'r rheiny gael eu cynnwys yn ystod cyfnod yr archwiliad?<br>• Mae'r ExA yn nodi y byddai cynnwys newidiadau o'r fath yn nhelerau'r DCO yn newidiadau sylweddol eu natur, ac felly byddai'n annog diwygio cynnar ac egluro lle y bo'n briodol.<br>• Mae'r ExA hefyd yn nodi bod posibilrwydd y gallai'r DCO drafft gynnwys telerau rhagofalus ar y cam hwn gydag opsiynau optio allan neu gymal pensil glas digonol pe na byddai modd cytuno'n ffurfiol ar fanylion gwella ecolegol/ BNG neu ofyniad arall tebyg neu pe byddai angen eu sicrhau gan ddefnyddio dull o'r fath. |
| Q2.19.3 | *Gwella Bioamrywiaeth/ Darparu BNG oddi ar y safle*<br>**Yr Ymgeisydd** | • Gofynnir i'r Ymgeisydd egluro ymhellach sut byddai darpariaeth oddi ar y safle yn cael ei thrin yn y darpariaethau cyfreithiol sydd ar gael. |
| Q2.19.4 | *Dylunio/ Rheoli Perygl Llifogydd*<br>**Yr Ymgeisydd/ CNC** | • Mae'r ExA yn ymwybodol bod yr Ymgeisydd yn ceisio mynd i'r afael â phryderon CNC trwy gynnwys Darpariaethau Amddiffynnol yn y DCO (gweler Atodlen 10, Rhan 8 y DCO drafft [REP3-005]) fel a ganlyn:<br><br>*"Er mwyn amddiffyn CNC*<br><br>*82. Mae darpariaethau'r Rhan hon o'r Atodlen hon yn effeithiol oni bai y cytunir fel arall yn ysgrifenedig rhwng yr ymgymerwr a CNC…*<br><br>*83. Bydd yr ymgymerwr yn caniatáu i CNC gael mynediad i'w asedau a'i ddaliadau tir o fewn Terfynau'r Gorchymyn, trwy dir y mae'r ymgymerwr yn ei feddiannu yn ystod adeiladu, ar gais rhesymol. Yn arbennig: -*<br><br>*(a) bydd yr ymgymerwr yn sicrhau bod mynediad ar gael i'r amddiffynfeydd rhag llifogydd a'r glannau ar hyd Afon Dyfrdwy ar gais, o fewn y lleiniau a ddangosir fel 13-20, 13-21, 14-04, 14-05, 14-06, 14-07, 14-08 ar y cynlluniau tir, pan fydd yr ymgymerwr yn meddiannu'r lleiniau hynny; a* |

| ExQ2 | Cwestiwn ar gyfer: | Cwestiwn: |
|---|---|---|
| | | *(b) bydd mynediad dros y lleiniau a ddangosir fel 14-11, 14-14a, 14-20, 14-21, 14-22 14-23, 14- 24, 14-25, 14-26 a 14-27 ar y cynlluniau tir yn cael ei gynnal ar gyfer CNC, neu pan fydd gweithgarwch adeiladu’n tarfu arno, bydd ar gael i CNC ar gais rhesymol.*<br><br>*84. Pan fydd yr ymgymerwr yn datblygu dyluniad manwl, bydd yn ymgynghori â CNC ynglŷn â’r dyluniad arfaethedig er mwyn sicrhau na fyddai’r dyluniad arfaethedig yn atal neu’n cyfyngu’n ddiangen ar allu CNC i gael mynediad i unrhyw un o’i asedau, gan gynnwys amddiffynfeydd rhag llifogydd, neu eu cynnal a’u cadw”.*<br><br>Mae cyflwyniadau CNC erbyn Terfyn Amser 2 yn amlygu pryderon ynglŷn â’r ymagwedd hon, gan gynghori bod a.165 Deddf Adnoddau Dŵr 1991 yn ei rymuso i gael mynediad i dir i gynnal gwaith rheoli perygl llifogydd ac nad yw darpariaethau’r DCO yn drech na’r pwerau hyn. Mae CNC yn datgan nad oes angen iddo gael caniatâd ar wahân o dan y DCO i arfer ei bwerau o dan a.165 Deddf Adnoddau Dŵr 1991.<br><br>Mae’r ExA yn gofyn sut bwriedir datrys y mater hwn rhwng y partïon? |
| Q2.19.5 | *Adeiladu a diogelwch*<br>**Yr Ymgeisydd** | • Mae [RR-077] yn cynghori y dylai’r mesurau a gynigir yn adran 6.5 yr Asesiad Risg Mwyngloddio [AS-043] gael eu cynnwys fel Gofyniad yn y DCO. Cyfeiriwch at ble y gwnaed hyn neu cynghorwch sut y bwriedir i fesurau o’r fath gael eu sicrhau yn y DCO. |
| Q2.19.6 | **Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd (CRT***)* | • yn ei sylwadau wedi codi pryderon ynghylch Erthyglau 21 (Awdurdod i arolygu ac ymchwilio i'r tir) 31 (Caffael isbridd a gofod awyr) a 34 (Defnydd dros dro o dir ar gyfer cynnal y datblygiad awdurdodedig) drafft DCO. Fodd bynnag, nid yw wedi ymhelaethu ynghylch beth yw'r pryderon hynny. A allai'r Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afon roi esboniad manwl ynghylch beth yw ei bryderon ynghylch yr Erthyglau hyn? |
| Q2.19.7 | **Network Rail Infrastructure Ltd (NR)** | • Yn ei sylwadau hyd yma wedi nodi ei fod yn gwrthwynebu'r pwerau a gynhwysir mewn Erthyglau penodol a gynhwysir yn y DCO drafft, gan y byddent yn awdurdodi'r Hyrwyddwr i gaffael hawliau gorfodol ar dir neu dros dro, neu ddefnyddio tir dros dro, sy'n ffurfio rhan o dir rheilffordd weithredol NR ac y mae NR yn dibynnu arno ar gyfer cyflawni ei ymgymeriad statudol. |

| ExQ2 | Cwestiwn ar gyfer: | Cwestiwn: |
|---|---|---|
| | | Yr Erthyglau sy'n peri pryder yw Erthyglau 19 (Rhyddhau dŵr), 21 (Awdurdod i arolygu ac ymchwilio i'r tir), 22 (Gwaith amddiffynnol i adeiladau), 24 (CA o dir), 26 (CA hawliau a chyfamodau cyfyngol), 27 awdurdod statudol i ddiystyru hawddfreintiau a hawliau eraill, 28 (CA tir: mwynau), 29 (Hawliau preifat), 29 (Hawliau preifat), 31 (Caffael isbridd neu ofod awyr yn unig), 33 (Hawliau o dan neu dros strydoedd), 34 (Defnydd dros dro o dir ar gyfer cynnal y datblygiad awdurdodedig), 35 (Defnydd dros dro o dir ar gyfer cynnal y datblygiad awdurdodedig) a 39 (Cwympo neu dorchi coed a chael gwared ar wrychoedd).<br><br>Nodir yr ExA mae trafodaethau parhaus gyda'r Ymgeisydd, gyda'r bwriad o gytuno ar safbwynt sy'n dderbyniol i'r ddau barti, ond hyd yma nid yw'r pryderon a godwyd wedi'u datrys. Heb fynd i mewn i unrhyw un o'r Ceisiadau Newid, a fydd yn destun ymgynghoriad / Gwrandawiadau ar wahân (os oes angen), gallai'r Ymgeisydd a NR roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau parhaus rhwng y partïon ynghylch gwrthwynebiadau NR i'r Erthyglau a restrir uchod, gan gynnwys a yw unrhyw un o'r gwrthwynebiadau hynny wedi'u datrys.<br><br>• Pe bai unrhyw un o wrthwynebiadau NR i'r Erthyglau a restrir uchod yn dal i fod, a allai'r Ymgeisydd/ NR gynghori'r hyn sy'n cael ei wneud gyda'r bwriad o ddatrys gwrthwynebiadau NR sy'n weddill, a phryd, o fewn yr amserlen Archwilio sy'n weddill, mae cydraniad(au) yn debygol o ddod? |
| **20. Arall** | | |
| Q2.20.1 | **Yr Ymgeisydd/ Dŵr Cymru (WW)/ IPs** | • Nodir bod gwasanaethau cyfleustodau o dan ardal y DCO yn cynnwys pibwaith WW. Er bod cyflwyniadau sy'n nodi cyfyngiadau lleiafswm dyfnder o 1.2 metr, yn unol â'r Datganiad o'r Rhesymau [REP2-008]. Sut byddai mesurau o'r fath yn sicrhau mynediad ar gyfer gwaith cynnal a chadw safonol ar bibellau dŵr neu os bydd argyfwng, fel gollyngiad dŵr?<br>Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, a chan dybio'r cyfyngiadau lleiafswm dyfnder fel y'u nodwyd uchod, a allai'r partïon gadarnhau p'un a fyddai pibellau dŵr wedi'u lleoli uwchben neu islaw piblinell yr Ymgeisydd? |
| Q2.20.2 | *Diogelwch* | • Ni dderbyniwyd ymateb i ExQ1 Q1.20.2 na Q1.20.3 gan yr HSE ac mae'r ExA yn ei wahodd i ymateb nawr. Yn ogystal, byddai'r ExA yn gofyn p'un a yw'r HSE yn bwriadu |

| ExQ2 | Cwestiwn ar gyfer: | Cwestiwn: |
|---|---|---|
| | **Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)** | dynodi'r datblygiad arfaethedig yn Biblinell Peryglon Damweiniau Mawr, neu ddynodiad tebyg, a fyddai'n creu parth ymgynghori gyda chyfyngiadau defnydd tir cysylltiedig? |
| Q2.20.3 | *Eglurhad*<br>**Yr Ymgeisydd/ FCC** | • Os caiff y tair BVS sydd wedi'u lleoli yn awdurdodaeth FCC eu hystyried yn 'Ddatblygiad Awdurdodedig' yn y DCO hwn, pam y ceisiwyd caniatâd cynllunio gan FCC (Cyfeirnod Cais FUL/000231/23)?<br>Byddai'r ExA yn gofyn i'r Ymgeisydd ac FCC a yw'n briodol ystyried y BVS o dan Ddeddf Cynllunio 2008 a Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990? Rhowch resymeg dros eich ateb. |
| Q2.20.4 | *Eglurhad*<br>**Yr Ymgeisydd** | • Mae Datganiad Cyffredinrwydd yr Ymgeisydd ar gyfer SoCG [REP2-025] yn cynnwys llythyr yn Atodiad A gan yr Awdurdod Glo y mae'n awgrymu ei fod yn cadarnhau nad oes angen SoCG. A all yr Ymgeisydd gyfeirio at ble yn y llythyr hwnnw y cadarnheir nad oes angen SoCG? |
| Q2.20.5 | *Eglurhad*<br>**FCC** | • Mae [RR-054] yn cyfeirio at apelio yn erbyn gwrthod rhoi caniatâd cynllunio, cyfeirnod 061368; tra cynghorodd FCC ynglŷn ag apêl bosibl yn erbyn ei wrthodiad i roi caniatâd cynllunio, cyfeirnod 062820. A all FCC gynghori p'un a apeliwyd yn erbyn y naill wrthodiad neu'r llall? Os felly, cadarnhewch statws yr apêl/ apeliadau. Os na chyflwynwyd apêl/ apeliadau, a yw'r graddfeydd amser ar gyfer apelio yn erbyn y penderfyniadau hyn wedi mynd heibio bellach? |
| Q2.20.6 | *Mesurau bioddiogelwch*<br>**Yr Ymgeisydd** | • Nodir ymateb yr Ymgeisydd i Sylwadau Ysgrifenedig [REP1-080] a [REP1-081]. Byddai'r ExA yn gofyn i'r Ymgeisydd egluro pa fesurau bioddiogelwch y byddai angen eu rhoi ar waith a sut y bwriedir i ddarparu mesurau o'r fath gael ei sicrhau trwy'r DCO? |
| Q2.20.7 | Eglurhad<br>**Yr Ymgeisydd** | • Mae [REP2-041] yng nghyfeirnod 2.9.61 yn cyfeirio at "…ymateb yr Ymgeisydd yn rhes 1.2.3 c) uchod", tra bod cyfeirnod 2.9.62 yn cyfeirio at "…ymateb yr Ymgeisydd yn rhes 1.2.3 d) uchod." A yw'r cyfeirnod hwn yn gywir? Eglurwch, os oes angen. |
| Q2.20.8 | **Yr Ymgeisydd** | • Nodir yr ExA [RR-001] (2 Sisters Food Group) cyfeiriwyd yn ymateb yr Ymgeisydd [REP1-042] yn nhabl 2.1 am 2.1.5 a 2.1.7 cyfeiriwyd at gyflogi 'tîm rheoli prosiect cadarn' a fydd yn cynnwys cysylltiadau cyhoeddus gyda'r bwriad o ymdrin â chwynion. |

**ExQ2: 15 Mehefin 2023**

**Mae’n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 5: Dydd Mawrth 4 Gorffennaf 2023**

| ExQ2 | Cwestiwn ar gyfer: | Cwestiwn: |
|---|---|---|
| | | Gohiriodd yr Ymgeisydd ymateb i gais yr ExA i esbonio sut y dylid sicrhau darpariaeth o'r fath yn y DCO, gan gynghori y byddai'n ymateb yn Nherfyn Amser 4? |